# CA3 Mwy am ei waith

**Testun Darllen 1 – Addasiad o drawsgrifiad o gyfweliad â Hannah Ellis**

Yr hyn dwi'n dwlu arno am waith Dylan Thomas, y darn bach cyfrinachol o hwyl yn ei waith, wir, yw ei fod yn chwarae â geiriau; mae'n arbrofi â nhw. Dyw e ddim yn gweld bod un gair yn golygu un peth. Felly, mae'n newid geiriau o gwmpas, yn dod o hyd i ffyrdd maen nhw'n odli; mae'n defnyddio cyflythreniad i gael ei eiriau i 'fownsio'. Roedd llyfr ganddo fel hefyd, 'Doomsday Book' oedd ei enw arno, ac yn y llyfr hwn byddai un gair ganddo a byddai'n dod o hyd i gymaint o ffyrdd gwahanol i odli'r gair, ffyrdd gwahanol o'u troi nhw am 'nôl neu wneud geiriau allan o un gair, a dwi'n meddwl: ry'n ni'n gallu cael cymaint o hwyl gydag iaith – dyw hi ddim yn fawreddog, dyw hi ddim yn ddiflas, ac roedd e'n gwybod hynny...
Mae'n rhaid ei fod e'n ysgrifennu drwy'r amser, drwy'r amser. Roedd ganddo becynnau sigaréts bach ac roedd e'n arfer ysgrifennu nodiadau ar eu cefnau nhw i gael syniadau, bob man y byddai'n mynd. Roedd fel petai geiriau'n fwyd iddo fe, dyna sut dwi'n meddwl am y peth, ac roedd ei ysbrydoliaeth o'i amgylch i gyd. Os oedd e'n gweld y môr, roedd yn rhoi syniad am ddisgrifiad iddo fe, os oedd e'n gweld rhywun yn ymddwyn mewn ffordd arbennig, byddai e'n gwneud nodyn – popeth. Os oedd rhywun yn sôn wrtho am ddigwyddiad oedd wedi digwydd rai wythnosau cyn hynny yn y bar, byddai'n ei ysgrifennu – roedd popeth yn danwydd i'w waith ysgrifennu.

**DARLLEN A DEALL**

1. Beth mae Hannah Ellis yn dwlu arno am waith Dylan Thomas? Dewiswch **un** ateb.

   a. Mae'n chwarae â llyfrau.
   b. Mae'n chwarae â geiriau.
   c. Mae'n chwarae â hwyl.

2. Pa dechnegau y mae **Hannah Ellis yn sôn amdanyn nhw** y mae Dylan Thomas yn eu defnyddio yn ei waith? Dewiswch **dri** ateb.

   a. cymariaethau
   b. cyflythreniad
   c. trosiadau
   ch. personoli
   d. odli
   dd. onomatopeia
   e. newid trefn geiriau

3. Beth mae Hannah Ellis wedi'i sylweddoli wrth weld sut roedd Dylan Thomas yn ysgrifennu ei waith? Dewiswch **un** ateb.

   a. Mae hi wedi sylweddoli nad yw iaith yn hwyl.
   b. Mae hi wedi sylweddoli nad yw iaith yn ddefnyddiol.
   c. Mae hi wedi sylweddoli nad yw iaith yn ddiflas.

4. Sut roedd Dylan Thomas yn treulio ei amser, yn ôl Hannah Ellis? Dewiswch **un** ateb.

   a. Roedd yn meddwl am fwyd.
   b. Roedd yn meddwl am ei waith ysgrifennu.
   c. Roedd yn meddwl am y môr.

5. Pa fath o bethau oedd yn ysbrydoli Dylan Thomas, yn ôl Hannah Ellis? Dewiswch **dri** ateb.

   a. Roedd yn cael ei ysbrydoli gan y bwyd roedd yn ei fwyta.
   b. Roedd yn cael ei ysbrydoli gan y storïau roedd pobl yn eu hadrodd wrtho.
   c. Roedd yn cael ei ysbrydoli gan gerddoriaeth.
   ch. Roedd yn cael ei ysbrydoli gan y pethau o'i gwmpas.
   d. Roedd yn cael ei ysbrydoli gan y bobl roedd yn eu gweld.
   dd. Roedd yn cael ei ysbrydoli gan waith beirdd eraill.

**TRAFODAETH GYFFREDINOL**

1. O'r darn o'r cyfweliad â Hannah Ellis, pa **ddau** beth roedd Dylan Thomas yn eu gwneud y byddai'n ddefnyddiol i awdur ifanc eu gwneud hefyd?

2. Pa argraff rydych chi'n ei gael o Dylan Thomas o'r darn hwn?

3. Sut byddech chi'n cwblhau'r frawddeg hon?

   **Ar ôl darllen y cyfweliad â Hannah Ellis am Dylan Thomas, rwy' wedi dod i'r casgliad, er mwyn llwyddo mewn unrhyw faes, fod rhaid ichi fod yn ......................................................**

**Cysylltiadau â'r Fframwaith Llythrennedd:**
**Darllen**
**Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd**
**Darllen a deall (Blwyddyn 7 – 9)**

- canolbwyntio wrth ddarllen testunau … sy'n newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt
- dewis y prif bwyntiau mewn testunau ac adnabod sut mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i'w hategu